Astudiaethau Achos

1. Achos 1 - Gogledd Cernyw

1.1 Penderfynodd yr Awdurdod rannu'r sir yn 9 ardal. Er mwyn annog cydweithio rhwng ysgolion crëwyd rhwydwaith ysgol ymhob ardal ar gyfer cymryd trosolwg a chefnogi datblygiad y cynllun ysgolion estynedig. Y cam cyntaf pwysicaf oedd i bob ardal gynhyrchu awdit a oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau pob ysgol mewn perthynas â darpariaeth graidd ysgol estynedig. Roedd yr awdit o gymorth er mwyn deall beth oedd yn ei le yn barod. Penodwyd cydlynydd gweithgareddau i bob clwstwr ac roedd yn allweddol yn y broses o adeiladu perthynas ac annog cydweithio rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill.

1.2 Mae'n bwysig pwysleisio fod rhannu'r sir yn 9 ardal nid yn unig mewn perthynas ag ysgolion estynedig ond hefyd timau plant a theuluoedd a grwpiau aml-asiantaethol wedi arwain at gydweithio a chynllunio aml-asiantaethol.

1.3 Prif ddeilliannau

- Mwy o gyfleon i blant a phobl ifanc
- Mwy o raglenni traws glwstwr
- Cynnydd yn ymrwymiad ysgolion
- Gwella gweithio mewn partneriaeth.
- Gwell cydweithio rhwng ysgolion

1.4 Ffactorau llwyddiant

- Partneriaeth gyda chyngor ardal
- Datblygu ysgolion estynedig mewn modd rhwydweithiol
- Adeiladu perthynas rhwng cydlynwyr gweithgareddau a phrifathrawon.

1.5 Sialensau

- Cludiant yn broblem oherwydd natur wledig yr ardal, gallu bod yn anhyblyg wrth edrych ar ddatblygu gwasanaethau tu allan i oriau traddodiadol ysgol ac yn gostus.
- Diweithdra tymhorol yn golygu bod y patrwm neu'r galw am ofal plant yn gallu amrywio o fis i fis.
- Nifer o ysgolion bach yng ngogledd Cernyw a niferoedd yn gostwng sydd yn ei gwneud hi'n ddeniadol i brifathrawon ddatblygu darpariaeth eu hunain a thynnu yn groes i'r cydweithrediad angenrheidiol.
- Pob ysgol ddim yn yr un sefyllfa mewn perthynas â gwasanaethau estynedig ac felly mae angen eu cefnogi mewn ffyrdd sydd yn adlewyrchu'r gwahanol boblogaethau a daearyddiaeth.

2. Achos 2 – Plymouth

2.1 Mae gan ysgol gynradd North Prospect draddodiad cryf o weithio mewn partneriaeth gyda'r gymuned leol ac mae gwasanaethau estynedig yn cael eu darparu trwy ddau gwmni a ffurfiwyd a chânt eu rheoli gan drigolion lleol. Mae'r ysgol hefyd wedi cychwyn nifer o brosiectau iechyd sydd wedi arwain at gyllid Cychwyn Cadarn, adeiladu canolfan blant ac agoriad meddygfa ar safle'r ysgol. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas gyda 2/3 o blant yn yr ysgol yn hawlio cinio am ddim. Yn ystod 1995 roedd nifer o ddisgyblion yn gadael yr ysgol a dechreuodd yr ysgol weithio gyda'r gymuned; erbyn 1997 agorwyd meithrinfa ar y safle. Yn 2005 daeth y ganolfan dydd Cychwyn Cadarn ar y safle i fod yn ganolfan blant. Roedd y gwasanaeth hwn a'r ddarpariaeth ehangach yn cael eu cynnig gan gwmni cyfyngedig a oedd yn cael ei reoli gan bwyllgor o bobl leol, staff ysgol a sefydliadau lleol.

2.2 Yn 2005 sefydlwyd meddygfa i'r gymuned ar y safle. Mae'r ysgol hefyd yn rhan o glwstwr o 25 o ysgolion, sydd yn cael eu gwasanaethu gan dîm aml-asiantaethol syn cynnwys yr Awdurdod Lleol, CAMHS, seicolegwyr addysg, anogwyr dysgu, gweithwyr iechyd a theulu. Mae'r timau yn ymweld â'r ysgol ac yn adolygu cyfeiriadau ar lefel achos a drwy grŵp ffiltro. Mae cydlynydd gwasanaethau integredig yn rhan o'r tîm ac yn gyfrifol am weithio ar draws y gwasanaethau hyn.

2.3 Mae'r ysgol hefyd yn darparu gofal plant yn ystod y tymor ac allan o oriau sydd yn cael ei gydlynu gan arweinydd chwarae. Mae'r ddarpariaeth ar gael i'r holl gymuned ac yn creu elw.

2.4 Mae'r ysgol wedi gweithio yn galed i ffurfio partneriaethau a datblygu cysylltiadau gyda chyfranddalwyr yn yr ardal. O ran strwythurau rheoli ac arwain mae dirprwy bennaeth heb gyfrifoldeb dysgu yn gyfrifol ar y cyd â'r pennaeth am y rôl o arwain a datblygu ymrwymiadau cymunedol, mae uwch arweinwyr eraill yn gyfrifol am ofal plant ac mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am o leiaf un weithred gymunedol o fewn y cynllun gweithredu.

2.5 Deilliannau a Buddiannau

- Gwelliant yn lefelau presenoldeb
- Gwelliant yn ymddygiad plant
- Ysgol yn y 5% uchaf yn genedlaethol
- Cynnydd yn nyheadau teuluoedd
- Cyfleon mynediad at dechnoleg gwybodaeth i'r gymuned
- Lefel uwch o gefnogaeth i ddisgyblion
- Y gymuned gyda gwell mynediad at ofal cynradd (meddyg teulu)

2.6 Ffactorau Llwyddiant

- Corff llywodraethu sydd yn gynrychioladol o'r model gwasanaeth integredig
- Cynrychiolaeth o'r gymuned ar y grwp rheoli canolfan blant
- Mynediad rhwyddach at wasanaethau cefnogaeth integredig i deuluoedd.

2.7 Gwersi a Ddysgwyd

- Pwysigrwydd ymgynghori a sicrhau fod barn pawb yn cael ei gynrychioli ar lefel y gymuned, llywodraethwyr a staff.

3. Achos 3 – Sunderland

3.1 Yn 2001, penderfynwyd ad-drefnu a chyfuno ysgolion babanod ac iau Valley Road, drwy gau'r hen ysgolion ac adeiladu adeilad newydd sbon. Gwelodd y llywodraethwyr hyn fel cyfle i greu ysgol a fyddai'n hwb i'r gymuned ac yn darparu 'one stop shop' ar gyfer addysg, iechyd ,gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y gymuned.

3.2 Mae gan yr ysgol newydd 3 rhan, 2 ar gyfer ei defnyddio fel ysgol draddodiadol ac un ar gyfer y gymuned. Mae'r rhan ar gyfer y gymuned yn cynnwys canolfan byw yn iach, swît TG gymunedol, meithrinfa gymunedol, caffi cymunedol, 2 stafell dysgu i oedolion, darpariaeth ar gyfer tîm ymddygiad blynyddoedd cynnar a thîm iechyd meddwl CAMHS.

3.3 Mae'r holl ddatblygiadau a mentrau cymunedol yn gyfrifoldeb ar yr is ddirprwy bennaeth, nad yw yn athro.

3.4 Mae'r ysgol yn ymrwymedig i barhau i ddatblygu'r gwasanaethau ac i adeiladu ar lwyddiant gweithio aml-asiantaethol. Y dasg nesaf fydd sefydlu cangen o'r undeb credyd lleol. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys galeri gymunedol i arddangos gwaith y plant a rhieni, prosiect i dirlunio'r safle, creu coedwig a gardd gymunedol a bydd cyfleusterau chwaraeon newydd hefyd yn cael eu hadeiladu.

3.5 Deilliannau

- Mae'r gymuned wedi cofleidio'r datblygiadau yn llawn ac yn gweld yr ysgol fel lle braf a chefnogol.
- Mae ymddygiad, cymhelliant, canlyniadau a phresenoldeb wedi gwella.
- Swyddi i bobl leol wedi eu creu yn yr ysgol
- Staff wedi elwa o'r feithrinfa ar y safle
- Barn ofsted "the project as a whole is bringing hope and optimism to an area of social and economic difficulty and is impacting on the regeneration of the area. As such it can be viewed as a blueprint for the future."

4. Achos 4 – Greenwich, Llundain

4.1 Mae Ysgol gynradd Cardwell wedi ei lleoli mewn ardal lle mae lefelau amddifadedd yn uchel; mae dros hanner y plant yn gymwys ar gyfer cinio am ddim. Mae nifer o broblemau gartref gan rhai o'r plant megis rhieni di-waith, dihyder a phroblemau iechyd meddwl ac mae hyn yn golygu fod plant yn aml yn amharod i gychwyn ysgol. Mae problemau ymddygiad yn gyffredin iawn.

4.2 Mae Ysgol Cardwell wedi ymateb i hyn drwy ail-asesu'r gefnogaeth fugeiliol sydd ar gael i'r 480 o blant yn yr Ysgol. Mae'r Ysgol yn hyrwyddo diddymu rhwystrau i ddysgu drwy wella sgiliau cyfathrebu plant. Mae hefyd bwyslais ar ddarparu cefnogaeth gymdeithasol, emosiynol ac academaidd. Mae amrediad eang o weithgareddau wedi eu cyflwyno sydd yn barod yn arwain at wella canlyniadau.

4.3 Mae clybiau yn cynnwys rhai chwaraeon, cerddoriaeth a drama ac mae plant yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn cynlluniau maen nhw'n eu mwynhau. Hefyd mae clwb brecwast a chlwb gofal a chwarae ar ôl Ysgol o 3:30-6yp.

4.4 Mae nifer fawr o weithgareddau a digwyddiadau hefyd wedi eu trefnu ar gyfer rhieni megis dosbarthiadau TG, a dosbarthiadau llythrennedd. Mae plant a'u rhieni yn cymryd rhan yn y cynllun cymunedol clwb pêldroed, sydd yn cynnig gwersi pêldroed ac ymarfer corff yn ystod ac ar ôl Ysgol ynghyd â chynllun darllen drwy brosiect 'darllen drwy pêldroed'.

4.5 Mae rhieni erbyn hyn yn cael eu hannog i gymryd rhan yn yr ysgol yn fuan iawn. Mae'r rhaglen Cychwyn Cadarn lleol yn rhedeg grwp rhiant a'i blentyn i blant ifanc iawn er mwyn eu paratoi ar gyfer cychwyn yn y feithrinfa. Mae'r sesiynau hefyd yn rhoi cyfle i rieni dderbyn gwybodaeth a chyngor i'w cynorthwyo i ystyried hyfforddiant i'r dyfodol neu ddychwelyd i waith.

4.6 Mae'r ffocws ar wella sgiliau gwrando a siarad hefyd yn dechrau yn fuan gyda system 'buddy' sydd yn trio dod â rhieni sydd yn siarad yr un iaith at ei gilydd ac mae gwirfoddolwyr o wahanol grwpiau ethnig yn rhedeg boreau coffi yn wythnosol.

4.7 Mae Ysgol Cardwell yn cyflogi therapydd teulu a 2 o weithwyr cyswllt teulu ac mae swyddogion proffesiynol arweiniol hefyd ar gael i deuluoedd ar safle'r ysgol. Maent hefyd yn cynnal cofrestr o rwystrau dysgu disgyblion megis, rhieni newydd ysgaru, achosion o gam-drin a bydd hyn yn annog athrawon i ystyried anghenion pob plentyn yn unigol.

4.8 Hefyd, cynhelir ffair flynyddol sydd yn ffynhonnell wybodaeth i rieni ac yn llwyddiant mawr. Bydd yn cael ei gynnal dros yr haf ac yn cynnwys amrediad o gyngor proffesiynol a chefnogaeth e.e. tîm Cychwyn Cadarn, canolfan waith, tîm ymddygiad ysgol, therapydd teulu, cyfrifydd, cynghorwr lleol, coleg cymunedol, nyrs ysgol. Mae'r Ysgol hefyd yn cynnal prynhawniau swper 'Jamie Oliver' pan gaiff rieni gyfle i ymuno â'u plant i flasu bwydlenni iach.

4.9 Mae bwriad i adeiladu canolfan blant fel estyniad i'r adeilad presennol a bydd yn agor yn 2007. Bydd rhai gweithgareddau o fewn yr Ysgol yn trosglwyddo i'r ganolfan fel meithrinfa ddydd, cyrsiau hyfforddiant i rieni, boreau coffi, grwpiau rhiant a phlentyn. Yn ychwanegol bydd gwasanaeth deintyddol a gwasanaeth cyn geni.

4.10 Mae Ysgol Cardwell yn gweithio yn agos gyda'r clwstwr cyfagos ac yn cynnal nifer o weithgareddau ar y cyd.

4.11 Ffactorau Llwyddiant

- Gweithio yn agos gyda rhieni i sicrhau fod gwasanaethau yn seiliedig ar angen
- Ymroddiad rheolaeth strategol ar lefel uchel i'r gwasanaethau estynedig er mwyn sicrhau cadw'r ymgodiad i fynd a sicrhau nad yw'r rhaglen yn cael effaith ar weithgareddau eraill yr Ysgol
- Mae'r rhaglen Ysgol estynedig angen sylw cyson a rhagweithiol er mwyn sicrhau bod y safonau uchel yn parhau.

4.12 Deilliannau

- Yr ysgol wedi derbyn y canlyniadau gorau eto, yn sgorio 100.4 ar fesurau 'value added'
- Gwaharddiadau yn anghyffredin iawn
- Sefydlogrwydd staff wedi gwella yn aruthrol
- Mae rhestr aros ar gyfer y feithrinfa
- Lefelau presenoldeb rhieni yn uchel iawn ac mae rhestr aros ar gyfer dosbarthiadau
- Cardwell wedi ei barnu i fod yn ysgol dda sydd yn parhau i wella yn gyflym mewn adroddiad diweddar gan OFSTED sy'n amlygu yn gryf farn bositif rhieni am yr ysgol
- Rhai o sylwadau OFSTED yn cynnwys:
- "Excellent community initiatives have contributed very effectively to the teaching and learning environment"
- "Mutual respect is paramount so every child can have an opportunity to achieve – you can see that when you walk around the school."
- "Parents feel that the school works very well with them and provides them with good information about their children."

5. Achos 5 - Shropshire

5.1 Mae Ysgol gynradd Weston Rhyn yn Ysgol gynradd gyda thua 170 o blant rhwng 3 ac 11 oed. Mae'n gyn bentref mwyngloddio ac yn dioddef o anfantais economaidd a chymdeithasol. Mae cynlluniau adfywio a phobl yn symud fewn i'r ardal wedi helpu i gyfarch y broblem hon. Mae'r nifer o blant sydd yn gymwys ar gyfer cinio am ddim yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol erbyn hyn yn cynnig amrediad llawn o wasanaethau ysgol estynedig gan gynnwys gofal plant o 8am hyd at 6yp. Fodd bynnag, mae darparu cludiant fel clwstwr ysgol wedi bod yn allweddol.

5.2 Y prifathro a'r llywodraethwyr sydd yn bennaf gyfrifol am y gwasanaethau estynedig ond hefyd sefydlwyd 'tîm newid' sydd yn cynnwys yr holl rhanddalwyr. Mae'r tîm hwn yn galluogi'r rhanddalwyr i godi unrhyw bryderon ac i awgrymu syniadau newydd ar gyfer rhedeg yr ysgol yn well.

5.3 Mae'r gwasanaethau estynedig a gynigir gan yr Ysgol yn cynnwys:

- Canolfan ymestyn yn ehangach i blant, sydd yn darparu gwasanaethau i blant 0-4 oed a'u rheini
- Gofal plant o 8yb – 6yp
- Clwb brecwast a gweithgareddau ar ôl ysgol sydd yn cael eu rhedeg gan gwmni preifat, Coolkidz. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys arlunio a chrefft, gwnïo, coginio a gemau. Mae gwaith cartref hefyd yn cael ei wneud yn y prynhawn ac mae hyn yn costio £6 y dydd i rieni a gostyngiad os gyda theulu o blant.
- Gwasanaethau aml-asiantaethol - mae'r ysgol yn cyflogi anogwr dysgu sydd yn adeiladu cysylltiadau gyda rhieni a gweithredu fel bônt gyda gwasanaethau fel gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Bydd rhai gwasanaethau fel y gwasanaeth tân, heddlu, undeb credyd lleol, gwasanaethau gwybodaeth hefyd yn ymweld â'r ysgol.
- Llyfrgell - Nid oedd llyfrgell barhaol yn y pentref ac felly mae'r ysgol yn darparu'r gwasanaeth hwn i ddisgyblion, rhieni a'r gymuned. Caiff yr ystafell hefyd ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd ar gyfer defnydd y gymuned a hyfforddiant i oedolion.
- Yn ogystal, mae ystafell gyfrifiaduron i ddisgyblion, rhieni a'r gymuned.
- Mae addysg i rieni ac aelodau eraill o'r gymuned yn cael ei redeg gan ddarparwyr allanol.

5.4 Mae trefnu cludiant ar gyfer disgyblion ysgol wedi bod yn allweddol i lwyddiant y rhaglen. Mae'r ysgol yn cydweithio gyda 2 ysgol arall o fewn y clwstwr ac ysgol uwchradd leol er mwyn darparu amrediad llawn ac eang o wasanaethau i ddisgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys rhedeg cyrsiau ar gyfer disgyblion talentog a galluog, defnyddio cyfleusterau chwaraeon a phwll nofio yn yr Ysgol Uwchradd leol. Mae cludo disgyblion i wahanol leoliadau felly yn allweddol i lwyddiant y cynllun hwn. Nid yw'n ariannol hyfyw i brynu a rhedeg bws mini eu hunain ac felly bydd yn hurio bws gan gwmni preifat lleol. Bydd y gost wedyn yn cael ei rannu 3 ffordd rhwng yr ysgolion cynradd eraill o fewn y clwstwr. Mae hyn yn sicrhau costau fforddiadwy i'r 3 ysgol.

5.5 Deilliannau

- Lefel gweithgareddau i ddisgyblion wedi gwella
- Gwell cysylltiadau gyda rhieni a'r gymuned ehangach.
- Llyfrgell ar agor i'r gymuned
- Cyfleon addysg a hyfforddiant i'r gymuned ehangach